

TESSA

Canllaw ar gyfer rhieni
mabwysiadol



Teulu gyda'n gilydd
Together were family

Ad



Teulu gyda'n gilydd Together we're family

Adoption UK yw'r brif elusen ar gyfer y rhai sy'n rhianta neu'n cefnogi plant sydd wedi'u mabwysiadu. Gyda dros 6,000 o aelodau ni yw llais mwyaf mabwysiadwyr yn y DU. Rydym yn gweithio gyda mabwysiadwyr, pobl wedi'u mabwysiadu, gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd yn gweithio gyda theuluoedd sy'n berthnasau a'r rhai sy'n magu plant sydd â gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

Pam mae teuluoedd ein hangen ni

Mae bod yn rhiant mabwysiadol yn rhyfeddol, ac mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn dweud wrthym y byddent yn annog eraill i fabwysiadu. Ond gall mabwysiadu fod yn anodd. Mae tri chwarter y plant sy'n cael eu mabwysiadu wedi dioddef trais, camdriniaeth neu esgeulustod sylweddol yn eu teuluoedd biolegol, sy'n cael effaith barhaol ar eu hiechyd meddwl a chorfforol, eu perthnasoedd a'u dysgu. Mae mabwysiadu yn cymryd gwydnwch, dealltwriaeth a'r gefnogaeth gywir o'r cychwyn cyntaf.

Beth rydym ni'n ei wneud

Rydym yn helpu teuluoedd sy'n mabwysiadu i adeiladu dyfodol mwy disglair i blant sy'n agored i niwed. Rydym yn cynnig cymorth cymunedol, cyngor arbenigol, gwasanaethau therapiwtig ac eiriolaeth. Wrth ymgyrchu dros welliannau i bolisi ac ymarfer, rydym yn defnyddio ein sylfaen dystiolaeth gynyddol am brofiad mabwysiadwyr a phobl a fabwysiadwyd.

Fel Asiantaeth Cymorth Mabwysiadu gofrestredig, mae gan Adoption UK Cymru yr holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth a'r Unigolyn Cyfrifol yw'r Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer y sefydliad. Gellir dod o hyd i'r adroddiad arolygu mwyaf diweddar drwy ein gwefan www.adoptionuk.org/wales

Teulu gyda'n gilydd
Together we're family

Gweledigaeth

Cyfle cyfartal am ddyfodol disglair i bob plentyn nad yw'n gallu byw gyda'i rieni biolegol.

Diben

Sicrhau'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir i'r plant sydd wrth wraidd pob teulu mabwysiadol a gofal gan berthnasau.

Gwert hoedd



Rydym ni'n agored

Rydym yn hyrwyddo pob teulu mabwysiadol a theuluoedd gofal gan berthnasau – rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, cydraddoldeb, a chynhwysiant.

Rydym yn onest am realiti mabwysiadu a gofal gan berthnasau, ac am yr hyn sydd angen ei newid.

Rydym yn gweithio'n adeiladol gydag eraill – rydym yn sefyll dros syniadau gwych, penderfyniadau da, a chefnogaeth ragorol i deuluoedd.

Rydym yn gryfach gyda'n gilydd

Rydym yn arloesi cymorth gan gymheiriad ym maes mabwysiadu a gofal gan berthnasau.

Rydym yn galluogi teuluoedd i adeiladu eu rhwydweithiau a chael cryfder ganddynt.

Rydym yn gweithio gyda theuluoedd i adeiladu achos arbenigol dros well cefnogaeth.

Rydym yn benderfynol

Ni fyddwn yn stopio nes bod gan bob teulu mabwysiadol a gofal gan berthnasau yr hyn maen nhw ei angen i ffynnu.

Byddwn yn grymuso pob teulu mabwysiadol a gofal gan berthnasau i ofyn am yr hyn maen nhw ei angen, a chael yr hyn maen nhw ei angen.

Gyda'n gilydd, mae ein cymuned yn rym pwerus ar gyfer newid ym mywydau'r plant rydym yn eu caru.



Beth ydy TESSA?

Mae TESSA yn wasanaeth cymorth i rieni Mabwysiadol a'u plentyn/plant wedi'u mabwysiadu. Mae'n brosiect Adoption UK, ledled y wlad, a gefnogir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru. Mae TESSA yn cefnogi ac yn hyrwyddo rhianta therapiwtig i roi dealltwriaeth o effaith trawma ar ddatblygiad plentyn a sut y gall rhianta'n therapiwtig wella bywyd teuluol. Mae'n gweithio gyda theluoedd mabwysiadol i greu cynlluniau cymorth pwrpasol, gan gynnwys:

- Ymgynghoriadau seicolegol;
- Hyfforddiant ac addysgu;
- Cefnogaeth cymheiriaid;
- Cymorth gydag ysgolion;
- Cymorth wedi'i deilwra gan glinigwyr ymlyniad profiadol ac sydd wedi'u hachredu ym maes trawma

Y nod yw helpu i rymuso a galluogi teluoedd, gan greu'r amodau ar gyfer gwell iechyd a lles teuluol.

Ar gyfer pwy mae TESSA?

Mae TESSA yn fwyaf addas ar gyfer teulu lle mae parodrwydd a gallu i ddysgu a myfyrio ar eu rhianta a'r berthynas o fewn eu teulu. Efallai y bydd y teulu'n profi rhywfaint o broblemau gydag ymddygiad y plentyn gartref neu yn yr ysgol ac mae angen rhywfaint o eglurder ynghylch yr hyn a allai fod yn sail i'r ymddygiad hwn a chanllawiau ar ddull rhianta mwy therapiwtig.

Nid yw TESSA yn dileu nac yn disodli rhwymedigaeth statudol Awdurdod Lleol i asesu a chefnogi rhieni sy'n mabwysiadu. Felly, un o'r trafodaethau cyntaf y bydd Adoption UK yn ei gynnal gyda rhiant mabwysiadol sydd â diddordeb yn y gwasanaeth fyddai trafodaeth yn ymwneud â chysylltu â'u Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol i ofyn am asesiad o angen ac i ddarganfod pa wasanaethau therapiwtig y gallant eu cynnig. Nid yw Adoption UK yn gallu derbyn hunan-atgyfeiriadau i'r gwasanaeth.

Mae gan bob Gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol yng Nghymru gydlynedd TESSA sy'n gwybod am y prosiect ac sy'n gyfrifol am sicrhau bod staff yn y gwasanaeth rhanbarthol yn deall pwy mae TESSA wedi'i gynllunio i'w helpu.

Meini prawf ar gyfer atyfeirio at TESSA

- Rhieni mabwysiadol sydd â phlentyn/plant wedi'u lleoli gyda nhw.
- Teuluoedd sydd naill ai wedi derbyn neu wedi gwneud cais am orchymyn mabwysiadu.
- Teuluoedd lle mae'r plentyn/plant wedi'u lleoli am o leiaf 12 mis. (Gall fod amgylchiadau achlysurol lle bydd teulu yn cael ei dderbyn i TESSA cyn i'r 12 mis ddod i ben yn destun ymgynghori â chydlynedd TESSA AUK)
- Rhieni mabwysiadol a'u plant sy'n cael rhywfaint o anawsterau gydag ymddygiad gartref neu yn yr ysgol ac y byddent yn elwa ar rywfaint o eglurder ynghylch yr hyn sy'n sail i'r rhain a chanllawiau ar ddull rhianta therapiwtig.



Mae TESSA yn addas os yw rhieni mabwysiadol:

- Sy'n teimlo'n ansicr ynghylch sut i ddelio â materion ymddygiadol lefel isel.
- Fyddai o bosibl yn elwa ar gymorth dros y ffôn yn y tymor byr, er enghraifft, gan riant bartner.
- Sydd angen gwybodaeth am faterion fel hanes bywyd, materion hunaniaeth, a phryderon pobl ifanc yn eu harddegau.
- Sydd angen gwybodaeth am faterion mae eu plentyn/plant yn eu hwynebu yn yr ysgol.
- Sy'n teimlo'n 'sownd' am sut i helpu/cefnogi eu plentyn.

Gall TESSA hefyd fod o gymorth ychwanegol i rieni sydd:

- Yn teimlo eu bod wedi'u llethu ac yn cael trafferth ymdopi fel teulu.
- Yn teimlo eu bod wedi colli 'rheolaeth rhieni' yn eu tŷ.
- Yn teimlo'n anghymwys i ymdopi ag ymddygiadau heriol fel ymddygiad ymosodol plentyn tuag at riant.
- Yn cael anawsterau gydag ymddygiad heriol gan bobl ifanc yn eu harddegau.
- Yn teimlo eu bod yn colli neu wedi colli cysylltiad â'u plentyn/plant.
- Angen cymorth ynghylch cyswllt â'r teulu biolegol.
- Angen eiriolaeth a chymorth mewn cyfarfodydd ysgol.
- Yn poeni am hwyliau, rhyngweithio cymdeithasol, materion synhwyraidd eu plentyn/plant.
- Yn meddwl bod angen cymorth pellach ar eu plentyn/plant oherwydd anghenion cymorth ychwanegol megis FASD.
- Yn cydnabod bod eu plentyn/plant yn cael problemau gyda chysgu.

Sut mae rhiant/rhieni mabwysiadol yn atgyfeirio i TESSA?

- Mae angen i'r holl atgyfeiriadau gael eu gwneud drwy'r Awdurdod Lleol/Asiantaeth Ranbarthol neu Asiantaeth Wirfoddol a gynhaliodd yr asesiad mabwysiadu cychwynol neu sy'n cefnogi'r teulu ar hyn o bryd o ran cymorth ôl-fabwysiadu.
- Dylai teuluoedd gysylltu â'r asiantaeth berthnasol a gofyn am gael eu cyfeirio at TESSA neu anfon e-bost at tessa.wales@adoptionuk.org.uk. Bydd aelod o dîm TESSA wedyn yn cysylltu â'r teulu ac yn eu cefnogi drwy'r broses atgyfeirio.

Beth sy'n digwydd ar ôl i riant mabwysiadol wneud y cysylltiad cychwynol â'i wasanaeth mabwysiadu rhanbarthol/asiantaeth wirfoddol?

Bydd penderfyniadau ynghylch addasrwydd y gwasanaeth i deuluoedd yn cael eu gwneud o fewn y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol neu'r Awdurdod Lleol. Bydd staff yn y gwasanaeth cymorth ôl-fabwysiadu neu'r awdurdod lleol (yn dibynnu ar ba ranbarth mae'r teulu'n byw ynddo) yn cynnal asesiad o anghenion cymorth y teulu ac yn gwneud penderfyniad ynghylch atgyfeiriad at TESSA.

Bydd y cydlynnydd TESSA rhanbarthol yn rhoi help ac arweiniad i staff ôl-fabwysiadu i sicrhau bod y rhieni hynny fyddai'n elwa fwyaf o TESSA yn cael eu hatgyfeirio i'r prosiect.

Ar ôl gwneud asesiad o addasrwydd, bydd ffurflen atgyfeirio ffurfiol yn cael ei chwblhau a'i hanfon at reolwr TESSA ar gyfer Cymru. Gall rhieni mabwysiadol ddisgwyl cyfrannu gwybodaeth i gynorthwyo'r atgyfeiriad hwn.

Beth sy'n digwydd pan fydd atgyfeiriad at TESSA yn cael ei wneud?

- Pan dderbynnir yr atgyfeiriad gan yr awdurdod lleol neu'r Asiantaeth Fabwysiadu, bydd Cydlynnydd TESSA AUK yn cysylltu â'r rhiant/rhieni mabwysiadol i gael trafodaeth a chasglu unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen. Disgwylir y bydd hyn yn cael ei wneud o fewn 14 diwrnod i dderbyn yr atgyfeiriad.
- Mae'r gwasanaethau sydd ar gael o dan TESSA yn cael eu teilwra i anghenion teulu unigol.

Ymgynghoriad â seicolegydd

Yn dilyn y drafodaeth gyda'r teulu, bydd ymgynghoriad manwl gyda Seicolegydd Clinigol yn nhîm TESSA yn cael ei gynnig i'r teulu. Gall y Cyfarfod Ymgynghori hwn gynnwys yr holl oedolion hynny sy'n adnabod y plentyn orau a thrwy rannu eu gwybodaeth am y plentyn gwneir mae 'fformiwleiddiad seicolegol' yn cael ei wneud. Efallai y bydd angen gwaith papur neu wybodaeth hanesyddol ychwanegol i gynorthwyo gyda'r broses hon. Rhagwelir y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal o fewn 6 i 8 wythnos.

- Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd adroddiad yn cael ei ysgrifennu, a bydd hwn yn ganllaw i unrhyw wasanaethau ychwanegol a gynigir i'r teulu drwy TESSA. Mae'r adroddiad hwn gyda chaniatâd yn cael ei rannu gyda'r cydlynnydd Rhanbarthol a'r Partner Rhieni.
- Bydd y teulu yn cael cynnig Rhiant Bartner a fydd yn rhoi cymorth cymheiriaid ychwanegol i'r teulu o'r adeg pan fydd yr atgyfeiriad i TESSA ei dderbyn a thrwy gydol yr Ymyriad Cyntaf.
- Bydd cytundeb gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r teulu yn amlinellu'r cymorth sy'n cael ei ddarparu o dan TESSA a'r cyfnod disgwylidig ar gyfer darparu'r cymorth hwn.

Y grŵp TESSA

Bydd TESSA yn cynnig cyfle i rieni mabwysiadol fynychu grŵp sy'n canolbwyntio ar rianta therapiwtig. Mae hyn oherwydd yn sylfaenol rydym yn deall bod bod yn rhiant mabwysiadol yn gofyn am rianta ychwanegol! Er mwyn rhoi'r wybodaeth 'ychwanegol' honno i'r rhieni, mae angen iddynt fod yn wybodus, cael eu haddysgu ac yn bwysicaf oll, cael eu cynorthwyo i fod mewn sefyllfa lle gallant rianta yn therapiwtig.

Bydd y grŵp myfyriol yn cael ei redeg gan Seicolegydd a rhiant mabwysiadol a bydd yn rhedeg am chwe sesiwn ac yn rhoi cyfle i rieni gael mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o sut mae profiadau cynnar o drawma ac esgeulustod yn effeithio ar ymddygiad eu plentyn/plant, cyfathrebu, y gallu i ddysgu, a sut maen nhw'n ffurfio ac yn ymgysylltu mewn perthynas. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod lleoliad y grŵp o fewn pellter hwylus ac ar amseroedd hygyrch.

Mae'r grŵp hefyd yn cael ei gynnig ar-lein oherwydd cyfyngiadau Covid 19. Yn ystod y grŵp bydd rhieni yn gallu archwilio a myfyrio ar eu dulliau a'u strategaethau rianta eu hunain; o hyn, mae rhieni'n cael eu galluogi i ganfod ffyrdd o gynorthwyo eu plentyn/plant yn fwy therapiwtig.

Mae'r grŵp hefyd yn caniatáu amser a gofod myfyriol i'r rhieni ystyried eu perthynas eu hunain, eu perthynas â phobl eraill, a sut maen nhw'n gofalu amdany'n nhw eu hunain. Mae'r grŵp yn ystyried hunan-ofal fel agwedd hanfodol ar rianta therapiwtig gan ei fod yn ddylanwad pwysig ar allu rhiant i barhau i fod dan reolaeth a bod â'r gallu angenrheidiol i ymdopi â'i blentyn/phlant a'i gefnogi.

Mae'n bosibl na fydd angen i bob rhiant mabwysiadol fynychu'r grŵp hwn. Bydd yn dibynnu ar eu profiad a'u gwybodaeth flaenorol. Byddai hyn yn cael ei drafod yn llawn yn ystod y cam ymgynghori â chlinigydd.

Rhiant Bartneriaid

Mae wedi hen ennill ei blwyf fod teuluoedd mabwysiadol yn elwa ar gefnogaeth pobl sydd â'r profiad uniongyrchol o rianta plentyn wedi'i fabwysiadu. Mae'r cymorth cymheiriaid hwn yn amhrisiadwy ac yn ategu'r cymorth a gynigir gan yr ymarferwyr. Pan fydd teulu'n cael ei atgyfeirio at TESSA, bydd rhiant-bartner yn cael ei neilltuo iddo sy'n rhiant mabwysiadol. Bydd y person hwn ar gael i'r teulu er mwyn trafod y materion, bod yn glust i wrando a chynnig empathi a chefnogaeth emosiynol, a helpu'r teulu i adolygu eu dull o rianta, a chysylltu â'r ymarferwyr lle bo angen.

Mae rôl y Rhiant Bartner yn debyg i'r cynllun Cyfeillio sy'n cael ei gynnig gan Adoption UK, ond mae'n fersiwn gwell gyda'r Rhiant Bartneriaid yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi yn unol â model TESSA a byddant yn cael eu cyflogi fel gweithwyr sesiynol yn hytrach nag yn wirfoddolwyr. Caiff pob Rhiant Bartner ei recriwtio a'i gefnogi gan Adoption UK.

Bydd Rhiant Bartneriaid yn trafod gyda'r teulu sut a phryd y bydd cyswllt gyda nhw yn digwydd er mwyn caniatáu i'r rhiant bartner a'r teulu gytuno ar wasanaeth pwrpasol sy'n addas i'r ddwy ochr. Disgwylir y bydd cyswllt rhwng y Rhiant Bartner a'r teulu yn digwydd o leiaf unwaith bob pythefnos.

Gwasanaethau cymorth ychwanegol

Mae TESSA yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth pellach gyda'r bwriad o wella'r cymorth. Cynigir y rhain fel arfer fel rhan o ddarpariaeth grŵp ac mewn rhai achosion ar gyfer teuluoedd unigol.

Gwneir y penderfyniad hwn fel rhan o'r adolygiadau a'r asesiadau a gynhelir trwy gydol ymglymiad y teulu â TESSA, dan oruchwyliaeth cydlynedd TESSA.

Mae enghreifftiau o'r math o wasanaethau cymorth y gellid eu cynnig yn cynnwys:

- Ymgynghori a hyfforddi gyda'n hymarferydd achrededig mewn Gwrthsefyll Di-drais i deuluoedd sy'n profi trais neu ymddygiad ymosodol ymhlith plant
- Sesiynau/gweithdai hyfforddi ar themâu arbenigol gan gynnwys strategaethau rianta therapiwtig, materion synhwyrdd, FASD, cysgu ac ati
- Ymgynghoriadau a chymorth gydag ysgolion gan ein Swyddog Addysg
- Sesiynau i wella lles teuluoedd

Cost y gwasanaeth

Bydd Ymyriadau a gynigir o dan TESSA yn cael eu darparu am ddim i'r teulu trwy gydol eu cefnogaeth fel y nodir yn eu cytundeb gwasanaeth.

Mae Adoption UK hefyd yn cynnig gwasanaethau eraill fel hyfforddiant y gellir atgyfeirio teulu atynt ac a allai weithiau gael eu cynnig am dâl bach ychwanegol. Bydd unrhyw wasanaethau o'r fath yn cael eu trafod yn llawn gyda'r teulu a dim ond gyda'u cytundeb y byddant yn cael eu cynnig.

Adolygiad o'r gwasanaeth a dod â'r cymorth i ben

Bydd y gwasanaeth a ddarperir o dan TESSA yn cael ei adolygu gyda'r teulu yn rheolaidd ac os bydd angen i'r cymorth a roddir ddod i ben, rhoddir rhybudd ysgrifenedig i'r teulu am hyn.

Gofynion ar gyfer unrhyw ymarferydd neu therapydd sy'n cael ei ariannu drwy TESSA:

Mae cyfrinachedd ac amddiffyn plant yn hanfodol mewn gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel. Caiff pob un o'r clinigwyr sy'n gweithio yn TESSA eu gwirio gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd, mae ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol, maen nhw'n perthyn i gorff rheoleiddio proffesiynol ac mae'n ofynnol iddynt gadw at god moeseg proffesiynol.

Yn ogystal â hynny, maen nhw wedi cael eu hyfforddi dan hyfforddiant Insights Adoption UK ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes mabwysiadu.

Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o faterion mabwysiadu megis ymlyniad a thrawma datblygiadol, trafferthion yn yr ysgol, iselder ar ôl mabwysiadu, trawma eilaidd, gofal wedi'i atal a'r angen am hunan-ofal rhieni.

Bydd TESSA yn adolygu ei wasanaethau'n rheolaidd ac yn eu monitro. Bydd pob agwedd ar broses TESSA yn cael ei monitro a'i gwerthuso gan ffynhonnell allanol.

Sicrhau bod pawb yn ddiogel

Ym mhob sefydliad sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant, mae'n ofynnol sicrhau bod Canllawiau Diogelu Cymru Gyfan yn cael eu dilyn. Bydd gan y rhai sy'n gweithio gyda TESSA ddealltwriaeth a gwybodaeth gadarn a thrylwyr o ddiogelwch ar gyfer pob aelod o deulu mabwysiadol a bydd polisi ac arfer Diogelu cadarn ar waith.

Bydd cofnodion ynglŷn â'r teulu yn cael eu cadw yn unol â'r rhwymedigaethau statudol ac maen nhw'n cynnwys y manylion cyswllt, yr asesiad, yr ymyriad a gynigir ac adolygiadau o'r gwasanaeth.

Cedwir y cofnodion hyn yn electronig mewn gweinydd diogel ac maen nhw'n cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â chyfrinachedd, mynediad a diogelwch. Gall teulu weld eu cofnodion drwy wneud cais i reolwr TESSA yng Nghymru. Os bydd mater diogelu, gall teulu fod yn dawel eu meddwl y byddant yn cael eu trin â pharch a gwybodaeth yn cael ei rhannu ag eraill dim ond pan fydd hynny'n briodol ac yn berthnasol i ymchwiliad diogelu.

Mae'r gwasanaeth hwn yn golygu gweithio ar draws asiantaethau mewn partneriaeth fel y gellir diogelu teulu a'r plentyn sydd wedi'i leoli mewn gwasanaeth cadarn lle mae llinellau cyfrifoldeb a chyfathrebu clir.

Os oes gan Rhiant Bartner bryder am deulu, byddant wedi cael hyfforddiant ar sut i'w rhannu o fewn polisi a gweithdrefn Diogelu Adoption UK. Os oes gan deulu bryder ynghylch Rhiant Bartner, gallant weld polisi a gweithdrefn Adoption UK neu'r asiantaeth fabwysiadu drwy ei weithiwr cymdeithasol mabwysiadu.

Os oes sylw, pryder neu reswm dros gwyno

Mae Adoption UK bob amser yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cydymdeimladol, cwrtais a phroffesiynol i'w aelodau a'i ddefnyddwyr gwasanaethau. Er ein bod yn gobeithio na fydd ein gwasanaethau yn arwain at unrhyw gwynion, byddwn yn ymateb yn deg, yn gadarnhaol ac yn brydlon i gwynion gan yr aelodau a'r defnyddwyr gwasanaeth pan fyddan nhw'n teimlo nad ydym wedi bodloni eu disgwyliadau na'u hanghenion.

At hynny, rydym bob amser yn falch o glywed barn yr aelodau a'r defnyddwyr am ein gwasanaethau, er mwyn i ni allu cymryd camau i adolygu a gwella ein gwasanaethau, yn ôl yr angen. Gall y safbwyntiau hyn fod yn gadarnhaol, yn ogystal ag yn negyddol, a byddwn yn eu croesawu fel adborth adeiladol ar ein gwaith.

Bydd pob cwyn yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

Mae ein polisi a'n gweithdrefn gwynion wedi'u crynhoi, fel a ganlyn:

- Mae gennym weithdrefn gwyno anffurfiol a ffurfiol.
- Mae'r polisi yn gwahaniaethu rhwng cwynion am ddarparu gwasanaethau, a chwynion am ymddygiad staff, gweithwyr sesiynol, neu wirfoddolwyr. Yn yr achos olaf o'r rhain, caiff cwynion eu trin o dan y weithdrefn ffurfiol gan y Prif Weithredwr (mewn achosion sy'n ymwneud â staff ac eithrio'r Prif Weithredwr) neu Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (mewn achosion sy'n ymwneud â'r Prif Weithredwr).
- Bwriedir i'r weithdrefn anffurfiol fod yn hawdd i'w defnyddio, yn gyflym ac yn ymatebol i'r gŵyn:
- Cysylltu â'r Rheolwr y gwasanaeth perthnasol neu'r Prif Weithredwr dros y ffôn neu drwy'r e-bost.
- Bydd y Rheolwr neu'r Prif Weithredwr yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn ymateb o fewn saith niwrnod, gan roi esboniad o'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad y gwnaed cwyn yn ei gylch, y rhesymau am unrhyw wasanaeth anfoddhaol ac, os yn briodol, ymddiheuriad, pa gamau fydd yn cael eu cymryd i unioni'r gwasanaeth anfoddhaol a'r hyn y gallwch ei wneud nesaf os nad ydych yn fodlon â'r ymateb.
- Os nad yw'r ymateb yn foddhaol, yna gallwch ddefnyddio'r drefn gwyno ffurfiol, ond ni fydd angen i chi fynd drwy gamau cychwynnol y weithdrefn, gan mai'r Prif Weithredwr fydd yn ymdrin â'ch cwyn.
- Mae'r weithdrefn gwyno ffurfiol yn ei gwneud yn ofynnol i'r gŵyn fod yn ysgrifenedig:
- Bydd y Rheolwr neu'r Prif Weithredwr yn cydnabod ei fod wedi derbyn y gŵyn o fewn tri diwrnod gwaith a bydd yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn ymateb yn llawn o fewn 10 diwrnod gwaith.
- Bydd yr ymateb yn rhoi esboniad o amgylchiadau'r digwyddiad y gwnaed cwyn yn ei gylch, y rhesymau am unrhyw wasanaeth anfoddhaol ac, os yn briodol, ymddiheuriad, pa gamau fydd yn cael eu cymryd i unioni'r gwasanaeth anfoddhaol a beth rydych yn gallu ei wneud nesaf os nad ydych yn fodlon â'r ymateb.
- Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb, gellir cyfeirio'r gŵyn at y Prif Weithredwr a/neu Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w hystyried ymhellach.
- Os nad ydych yn fodlon ag ymateb y Cadeirydd, caiff y gŵyn ei chyfeirio at ddyfarnwr annibynnol. Bydd hunaniaeth y dyfarnwr hwnnw yn dibynnu ar natur y gŵyn. Bydd gan y dyfarnwr penodedig yr wybodaeth, y profiadau, y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i ymchwilio'n foddhaol i'r gŵyn. Bydd ymateb y dyfarnwr annibynnol yn derfynol.
- Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i hwyluso cymorth neu gefnogaeth wrth wneud cwyn, lle bo angen hynny.
- Rydym yn cadw cofnod o'r nifer a'r math o gwynion a dderbynnir er mwyn gwella ein gwasanaethau a darparu hyfforddiant perthnasol. Bydd y cofnodion hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn ogystal â hynny, bydd cwynion am ymarweddiad neu ymddygiad staff yn cael eu dwyn i sylw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (at ddibenion yr adolygiad) o fewn tri mis ar ôl i'r gŵyn ddod i law.

Cysylltwch â ni am fanylion llawn am ein Polisi a'n Gweithdrefn Gwyno.

Manylion cyswllt

Os hoffech wneud sylw neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y gwasanaeth hwn, cysylltwch â ni fel a ganlyn:

TESSA Cymru

Ebost: tessa.wales@adoptionuk.org.uk

Neu os yw'n well gennych ffonio, cysylltwch â ni ar y Rhif Ffôn: 02920 232221

Adoption UK Cymru

Stiwdios Penhevad

Stryd Penhevad

Caerdydd CF11 7LU

E-bost: wales@adoptionuk.org.uk

Telephone: 02920 230322

Llinell Gymorth: 0300 666 0006 (opsiwn 5) Llundain - Gwener 10.00am - 2.30pm

Neu gallwch gysylltu â'r

Comisiynydd Plant yng Nghymru:

www.childcomwales.org.uk

Eu gwaith yw sicrhau bod plant yn ddiogel, gan sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod eu hawliau'n cael eu hystyried gan y llywodraeth.

Fel Asiantaeth Cymorth

Mabwysiadu cofrestredig, mae

Adoption UK yn ddarostyngedig i

reoleiddio ac arolygu gan:

Arolygiaeth Gofal Cymru

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful CF48 1UZ

Ffôn: 0300 7900 126

<https://careinspectorate.wales>

Prif Swyddfa Adoption UK

Unedau 11 a 12

Unedau 11 a 12, Vantage

Business Park Bloxham

Road, Banbury

Swydd Rhydychen OX16 9UX

Ffôn: 01295 752240

E-bost: admin@adoptionuk.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru

Oystermouth House

Phoenix Way, Llansamlet

Abertawe SA7 9FS

Ffôn: 01792 76500 neu 0808 801 1000 E-bost:

post@childcomwales.org.uk

Os oes angen gwneud cwyn am wasanaeth cyhoeddus, gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio fel corff annibynnol. Gellir cysylltu â nhw yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1, Ffordd yr Hen Gae Pencoed

CF35 5LJ Ffôn: 0300

7900203

www.ombudsman.wales



Teulu gyda'n gilydd
Together we're family

Ein gweledigaeth yw cyfle cyfartal am ddyfodol disglair i bob plentyn nad yw'n gallu byw gyda'i rieni biolegol. Rydyn ni'n gweithio i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir i'r plant sydd wrth wraidd pob teulu mabwysiadol a gofal gan berthnasau.

Cymru

Stiwdios Penhevad
Penhevad Street
Grangetown
Caerdydd
CF11 7LU

Ffôn 02920 230322

E-bost wales@adoptionuk.org.uk

Prif Swyddfa

Units 11 and 12 Vantage
Business Park Bloxham
Road Banbury OX16
9UX

Ffôn 01295 752240

E-bost info@adoptionuk.org.uk

Llinell Gymorth Adoption UK

0300 666 0006

www.adoptionuk.org



twitter.com/aukcymru

facebook.com/aukcymru

I gael manylion am unrhyw un o'n polisiau ar gyfrinachedd, diogelu data, amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed, cyfle cyfartal a gweithdrefnau cwyno, cysylltwch ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

Rhif Elusen Gofrestredig 1160647 (Cymru a Lloegr) Rhif Elusen Gofrestredig SCO37892 (Yr Alban) Mae Adoption UK yn gwmmi cyfyngedig drwy warant Rhif Cwmni 9454981